YSGOL BRYNREFAIL

CWMNI THEATR CATSPAW

Ar ddechrau mis Mawrth fe gafwyd cyflwyniad cyfoes gan gwmni Theatr Catspaw. Sefydlwyd y cwmni yn 1996 gyda'r amcan o amlygu materion o gamdriniaeth o fewn yr aelwyd.

Mae'r nifer helaethaf o ddigwyddiadau trais neu ymosodiadau rhywiol yn gysylltiedig gyda phobl ifainc rhwng 13-16 oed.

Mae'r cynhyrchiad yn canolbwyntio ar ddigwyddiad trawiadol rhwng merch a'i chariad a'i ffocws ar y cysyniad o 'ganiatâd'. Fe glywir ac fe welir y sefyllfa o safbwynt y ferch a'r bachgen.

Roedd y gynulleidfa o ddisgyblion blwyddyn 10 yn gwylio a gwrando fel rheithgor anffurfiol a chael y cyfle i drafod beth ddigwyddodd. Yn y ffordd hyn mae realiti y gyfraith a'r goblygiadau yn cael eu harchwilio mewn manylder.

Trefnwyd y cyfan gan Ms Gwenno Hughes, Cyd lunydd Bagloriaeth dan 16 fel rhan o waith cwrs bagloriaeth blwyddyn 10